

Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol

Dyddiad:	26 Mehefin 2003
Amser:	09:00
Lleoliad:	Ystafelloedd Pwyllgora 3 & 4, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol
Teitl:	Rhaglen Ddeddfwriaethol a Rhaglen Waith y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer 2003 - dadansoddiad o'r goblygiadau i Lywodraeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Diben

1. Diben y papur hwn yw rhoi gwybod i'r Aelodau am oblygiadau Rhaglen Waith y Comisiwn i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'n rhoi manylion diweddaraf papur tebyg a gafodd ei gyflwyno mewn cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol ar 30 Ionawr 2003 (EUR-01-03). Papur er gwybodaeth yw hwn.

Crynodeb

2. Dyma themâu cyffredinol y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'r Rhaglen Waith ar gyfer 2003: Ewrop Ehangach; Sefydlogrwydd a Diogelwch; ac Economi Gynaliadwy a Chynhwysol. Ym marn y Comisiwn, mae'r prif heriau sy'n wynebu'r UE yn 2003 fel a ganlyn: paratoi ar gyfer ehangu; diffinio dyfodol Ewrop; a'r berthynas â chymdogion yr UE ar ôl iddi ehangu. Mae'r ehangu hwn yn cael ei gymharu, o ran ei bwysigrwydd gwleidyddol, i'r broses o sefydlu'r CE, 45 o flynyddoedd yn ôl.

3. At hynny, mae'r rhaglen yn canolbwyntio ar weithredu i glirio'r ymrwymadau sydd wedi cronni, yn benodol mewn perthynas â chyfiawnder a materion cartref. Roedd y meysydd y bwriadwyd gweithredu ynddynt yn amrywio o adroddiadau am beirianneg genetig i adnewyddu trwyddedau gyrru yn rheolaidd, o gysoni cyfreithiau'r UE ar ysgariad i'r effaith a gaiff stres ar iechyd, ac o'r frwydr yn erbyn troseddu yn gyffredinol i fynd i'r afael â thrais yn erbyn plant.

Rhagarweiniad

4. Roedd crynodeb y Rhaglen Waith, a oedd wedi'i baratoi gan y Comisiwn, yn gosod pob gweithgaredd yn 2003 yng nghyd-destun ehangu, a'r gofynion y byddai hynny'n ei roi ar adnoddau'r Comisiwn ei hun. Roedd y Comisiwn hefyd yn nodi bod y rhaglen wedi'i sefydlu ar ôl trafod yn helaeth â'r Cyngor ac â Senedd Ewrop. Yn y lle cyntaf, gostyngodd y Cyngor y swm yr oedd y Comisiwn yn bwriadu'i wario ar weinyddu, er mwyn talu am 500 o staff dros dro i gynorthwyo gyda'r gwaith o baratoi ar gyfer yr ehangu. Ond wedyn, penderfynodd y Senedd a'r Cyngor adfer y dyraniadau gwreiddiol yn y gyllideb weinyddu, er mwyn gallu recriwtio'r staff hyn.

5. Cyflwynodd y Comisiwn asesiadau effaith am y tro cyntaf, ac roedd ryw 40 o gynigion deddfwriaethol i fod yn destun i'r rhain yn 2003. O 2004 ymlaen, caiff pob cynnig o bwys ei asesu i weld a yw'n cydymffurfio ag egwyddorion sybsidiariti a chymesuredd, ac eir ati hefyd i ddadansoddi'r manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol.

Golwg Gyffredinol o Gynigion sydd â Goblygiadau i Lywodraeth Cynulliad Cymru

6. Mae'r adran hon wedi'i seilio ar ffurflenni, sydd newydd eu diweddarau, a gwblhawyd ym mis Ionawr gan swyddogion Llywodraeth y Cynulliad o bob grwp polisi ar draws y Cynulliad. Fe'u gwahoddwyd i ystyried goblygiadau'r rhaglen i'w gwaith. Mae'n ymdrin â'r ddwy thema sydd fwyaf perthnasol i fusnes y Cynulliad, sef "Ewrop ehangach" ac "economi gynaliadwy a chynhwysol".

EWROP EHANGACH

7. Paratoi ar gyfer ehangu'r UE yn llwyddiannus yw thema ganolog rhaglen y Comisiwn ar gyfer 2003. Bydd y gwaith yn golygu sicrhau bod y broses o ymuno yn un ddiraferth, yn ogystal â pharhau i fonitro a yw'r gwledydd sydd wedi gwneud cais i fod yn aelodau o'r Undeb yn gweithredu'r ymrwymadau a wnaed ganddynt. Croesawyd y gydnabyddiaeth a roddwyd i'r angen i roi arweiniad a chymorth ariannol i'r gwledydd sydd wedi gwneud cais i fod yn aelodau o'r UE er mwyn eu helpu i gryfhau eu galluedd gweinyddol a chyfreithiol.

8. Roedd arwyddo cytundeb a oedd yn cadarnhau cynlluniau'r Undeb Ewropeaidd i ehangu i gynnwys pum aelod ar hugain y flwyddyn nesaf yn gam mawr ymlaen. Os bydd hyn yn cael ei gymeradwyo'n ôl y bwriad, bydd deg aelod newydd yn ymuno'n ffurfiol â'r UE ym mis Mai 2004.

9. Bwriedir parhau â'r gwaith o yrru'r agenda ehangu yn ei blaen trwy baratoi a gweithredu Mapiau Ffordd ar gyfer Bwlgaria a Rwmania ar gyfer y cyfnod sy'n arwain at ymuno, a thrwy gryfhau'r strategaeth ar gyfer Twrci cyn iddi ymuno â'r Undeb.

ECONOMI GYNALIADWY A CHYNHWYSOL

10. Penderfynodd y Comisiwn nodi 10^{fed} pen-blwydd y farchnad sengl drwy gyhoeddi adroddiad am gryfderau a gwendidau'r Farchnad Fewnol, gan asesu'r hyn sydd angen ei gyflawni a chan nodi camau posibl i'w cymryd yn y dyfodol. Adroddiad pwysig arall a gyflwynwyd oedd yr adroddiad i Gyngor Ewrop (21 Mawrth 2003) am hynt strategaeth Lisbon ar gyfer adfywiad economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol, sef y rhaglen ddeng mlynedd o newid a lansiwyd gan y Cyngor ym mis Mawrth 2000. Roedd yn canolbwyntio ar roi'r strategaeth ar waith ac ar y materion yr oedd angen rhoi blaenoriaeth iddynt yn ystod y flwyddyn er mwyn cadw'r strategaeth ar y trywydd iawn.

11. Roedd y Comisiwn hefyd yn nodi ei fod yn fwriad ganddo, ar y cyd â nifer o Gyfarwyddiaethau Cyffredinol, i ddatblygu strategaeth thematig a fydd yn canolbwyntio ar "wella effeithlonrwydd amgylchedd ardaloedd trefol er mwyn sicrhau amgylchedd iach ar gyfer dinasyddion mewn ardaloedd trefol".

Y Cronfeydd Strwythurol a'r Cronfeydd Cydlyn

12. Yn ogystal â pharatoi adroddiadau blynyddol yn rheolaidd am y cronfeydd, ac ymgymryd â gweithgareddau penodol sy'n ymwneud ag adolygiad canol tymor o'r rhaglenni cyfredol, cyhoeddodd y Comisiwn Ail Adroddiad ar Hynt Cydlynaiad Economaidd a Chymdeithasol (Ionawr 2003), a'r bwriad yw cyhoeddi ei Drydydd

Adroddiad ar Gyflyniad Economaidd a Chymdeithasol ym mis Tachwedd neu fis Rhagfyr. Mae'r Trydydd Adroddiad yn ddogfen bwysig a fydd yn amlinellu cynigion y Comisiwn ar gyfer y cronfeydd strwythurol ar ôl 2006. Mae'r cynigion yn debygol o gadw'r meini prawf presennol (75% neu lai o GDP yr UE ar gyfartaledd) ar gyfer diffinio'r ardaloedd hynny sy'n llusgo ar ôl y lleill, ac felly'n gymwys ar gyfer arian Amcan Un. O ganlyniad i "effaith ystadegol" yr ehangu (mae gan y 10 Aelod-Wladwriaeth newydd GDP sy'n is na rhai'r Aelod-Wladwriaethau presennol a bydd hyn yn gostwng GDP yr UE ar gyfartaledd), bydd 18 o ardaloedd yn yr UE presennol sydd ar hyn o bryd yn gymwys ar gyfer arian Amcan Un yn anghymwys ar ôl 2006. Yn ôl pob tebyg, bydd Gorllewin Cymru a'r Cymoedd ymhlith yr ardaloedd hynny. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth y DU yn ymgynghori ynghylch ei syniadau ei hun am bolisi rhanbarthol, ar ôl 2006.

13. Mae'r Comisiwn hefyd yn ystyried deddfwriaeth i gyflwyno offeryn newydd mewn perthynas â chydweithredu traws-ffiniol. Mae hyn yn dibynnu ar ganlyniad trafodaethau sy'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd gan y Cyngor ynghylch ehangu'r UE gyda'r bwriad o adgyfnerthu'r rhaglenni ar wahân sydd wedi'u hanelu at y darpar Aelod-wladwriaethau.

Polisi ar Gystadleuaeth

14. Mae'r Comisiwn yn cyhoeddi dogfennau blynyddol am gymorth gwladol, ond eleni, mae'n ystyried mater o bwys, sef adolygu rheolau'r cymorth gwladol. Nod adolygu'r rheolau fydd "hybu dilysrwydd rheolaeth y Comisiwn ar gymorth gwladol...drwy [yn rhannol] ad-drefnu a symleiddio'r gweithdrefnau". Bydd hefyd yn cyhoeddi cynigion deddfwriaethol ar gymorth i Fusnesau Bach a Chanolig ac ar gyfer hyfforddiant. Ar 8 Mai, mabwysiadodd y Comisiwn ddiffiniad newydd o Fusnes Bach a Chanolig a fydd yn effeithio ar hyn ac ar feysydd eraill sy'n ymwneud â deddfwriaeth y CE. Ddiwedd 2003, mae'n fwriad gan y Comisiwn gyhoeddi rhestr ddiffiniol o'r sectorau sy'n wynebu problemau strwythurol difrifol. Caiff y rhestr hon ei defnyddio ar y cyd â'r fframwaith aml-sectoraidd ar gymorth rhanbarthol ar gyfer prosiectau buddsoddi ar raddfa fawr. Y tu hwnt i drothwyon penodol, ni chaniateir cymorth buddsoddi rhanbarthol i gwmnïau yn y sectorau a gaiff eu rhestru.

Cymwysterau Galwedigaethol

15. Mae'r cynnig i gryfhau Europass, menter sydd â'r nod o annog hyfforddeion i wneud eu hyfforddiant mewn mwy nag un o'r aelod-wladwriaethau, yn fenter gymharol fach, o'i chymharu â'r cynigion ehangach a dadleuol sy'n bodoli eisoes i helpu'r bobl hynny sydd â chymwysterau proffesiynol i allu dilyn eu galwedigaeth mewn aelod-wladwriaethau eraill. Trafod yn unig a wnaed hyd yn hyn, ac er mai mater i Lywodraeth y DU - fel llawer o feysydd polisi'r UE - yw hwn yn bennaf, bydd yn effeithio ar feysydd sy'n gyfrifoldeb i'r Cynulliad, megis gweithwyr iechyd proffesiynol ac, o bosibl, athrawon.

Iechyd

16. Croesewir y cynnig i sefydlu asiantaeth newydd ar lefel yr UE a fydd yn cydgysylltu materion sy'n ymwneud ag Afiechydon Trosglwyddadwy, (cadw golwg, yn bennaf), er fod yna ddadl ynghylch a ddylid mynd i'r afael ag ystod ehangach o faterion sy'n ymwneud â diogelu'r cyhoedd, megis bioderfysgaeth a pheryglon cemegol. Pa un a fydd y gweithgarwch ar y lefel Ewropeaidd yn esgor ar

ddeddfwriaeth sylfaenol ar lefel y DU ai peidio, bydd angen sicrhau bod cysylltiadau effeithiol â'r dulliau a geir ar lefel y DU. Yng Nghymru, mae'n debygol mai'r Asiantaeth Diogelu Iechyd, a gaiff ei sefydlu cyn bo hir, fydd yn gyfrifol am y gwaith hwn.

17. Croesewir mewn egwyddor y cynnig mewn perthynas ag achosion pandemig o'r fflw yn Ewrop, er nad yw'n debygol y byddai unrhyw faterion yn codi sy'n benodol i Gymru.

18. Bydd swyddogion Llywodraeth y Cynulliad ym maes iechyd y cyhoedd hefyd yn cadw golwg ar nifer o weithgareddau arfaethedig:

- 'cyfnewid cydweithredol' ym maes gofal iechyd a gofal hirdymor ar gyfer yr henoed [Cynllun Gweithredu Hybu Iechyd ar gyfer Pobl Hyn];
- y bwriad i sefydlu fframwaith rheoliadol clir a rhagweladwy ar gyfer yr honiadau ynghylch maeth ac iechyd y caniateir eu gwneud wrth labelu, cyflwyno a hysbysebu bwydydd... [Y rhaglen Faeth];
- ymgynghori ynghylch cynnig gan y Gymuned ar stres yn y gwaith, fel y rhagwelwyd mewn dogfen gan y Comisiwn ar "Addasu mewn ymateb i newidiadau yn y gwaith ac yn y gymdeithas; strategaeth newydd gan y Gymuned ar iechyd a diogelwch yn y gwaith 2002-2006" [y rhaglen Iechyd yn y Gweithle]; a
- chynigion ynghylch i ba raddau y caiff y cyfarwyddebau ar iechyd a diogelwch yn y gwaith eu gweithredu, a'r effaith a gânt ar yr Aelod-wladwriaethau [y rhaglen Iechyd yn y Gweithle]

Nodwyd y gallai un neu ddwy eitem arall yn y maes hwn gael effaith yn y tymor hwy, ond ni cheir cymaint o fanylion, er enghraifft, cynigion ar gyfer Dogfen yn nodi 'nodau ac amcanion polisi iechyd y Gymuned Ewropeaidd a sut mae'r Comisiwn yn bwriadu datblygu'r maes polisi hwn yn y dyfodol'.

Amaethyddiaeth

19. O ran amaethyddiaeth, mae cynlluniau ar y gweill i weithredu mewn llawer iawn o feysydd. Byddai nifer o'r camau hyn yn effeithio ar Gymru, yn enwedig y rhai hynny sy'n ymdrin â lles ieir sy'n cael eu magu ar gyfer eu cig, a'r rhai sy'n ymwneud â rheoli TSE/BSE ar draws yr Undeb. Nid yw'r un o'r cynigion hyn yn annisgwyl. I droi at feysydd penodol o'r polisi amaethyddiaeth:

Adolygiad Canol Tymor o'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC)

20. Bydd adolygu'r Polisi Amaethyddol Cyffredinol yn debygol o effeithio'n sylweddol ar ffermwyr yng Nghymru. Mae cyn Weinidogion a Gweinidogion presennol, ynghyd â swyddogion o'r Adran Amaethyddiaeth a Materion Gwledig yn cymryd rhan lawn yn y trafodaethau a gynhelir yn Llundain a Brwsel er mwyn dylanwadu ar Lywodraeth y DU o ran trafod telerau. Bwriad y dull hwn o weithio yw sicrhau'r fargen orau bosibl i Gymru ac i ffermwyr Cymru.

21. Cyhoeddwyd testunau deddfwriaethol drafft gan y Comisiwn ddiwedd Ionawr. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio'n agos ag Adrannau Amaethyddiaeth eraill yn y DU ac â'r Comisiwn, gan fynychu cyfarfodydd y gweithgorau technegol sy'n craffu ar y cynigion. Mae swyddogion yn rhoi gwybod i'r carfannau perthnasol yng Nghymru am y sefyllfa ddiweddaraf yn rheolaidd.

22. Roedd yr hen Bwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig yn derbyn adroddiadau'n rheolaidd am y modd yr oedd pethau'n datblygu ac roedd yn cyfranogi yn y broses ymgynghori. Bydd y Pwyllgor newydd yn parhau i gyfrannu at y broses hon.

23. Caiff y ddeddfwriaeth ddomestig briodol i weithredu'r polisiau y cytunir arnynt er mwyn diwygio'r PAC eu gwneud trwy'r Cynulliad Cenedlaethol maes o law.

Deddfwriaeth Benodol ar Nwyddau Amaethyddol

24. Mae sawl cyfeiriad ar restr fanwl y Comisiwn at ddeddfwriaeth ar nwyddau amaethyddol penodol (y mae Is-adran Polisi Amaethyddiaeth a Physgodfeydd 1 yn gyfrifol amdanynt). Os ydynt yn berthnasol i Gymru a gweddill y DU, cânt eu hystyried ar y cyd ag Adrannau Amaethyddiaeth eraill y DU, a chaiff y ddeddfwriaeth ddomestig briodol ei chyflwyno. Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) sy'n dal i arwain ar y materion hyn, gan ymgynghori â'r Gweinyddiaethau Datganoledig.

Pysgodfeydd

25. Mae nifer o gyfeiriadau at bysgodfeydd yn y rhaglen. Maent i gyd naill ai'n cyfeirio at ddeddfwriaeth i gefnogi cytundebau pysgodfeydd â Thrydydd Gwledydd, neu at ddeddfwriaeth sy'n deillio o'r Adolygiad o'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd.

26. Ni fydd y Cytundebau â Thrydydd Gwledydd yn cael unrhyw effaith ar y diwydiant yng Nghymru. Ni wyddys beth fydd effeithiau diwygio'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin nes i ni ac Adrannau Pysgodfeydd eraill y DU benderfynu sut i roi cynigion y Comisiwn ar waith. Y farn ar hyn o bryd yw na fydd y newidiadau yn effeithio fawr ddim ar y fflyd sy'n pysgota'r glannau yng Nghymru, ond y gallai amodau eithaf llym gael eu gosod ar y fflyd sy'n pysgota'r dyfnfor, er bod mwyafrif llethol y llongau hynny yn llongau tramor sydd wedi'u cofrestru yn y DU ac sy'n pysgota yn erbyn cwtâu y DU.

Trafnidiaeth

27. Mae'n fwrriad gan Senedd Ewrop a'r Cyngor gyflwyno cyfarwyddeb ar reoli manau lle ceir nifer mawr o ddamweiniau ar y ffordd, ac ar y safonau gofynnol mewn perthynas â gwybodaeth i yrwyr ar y Rhwydwaith Trafnidiaeth Traws-Ewropeaidd. Canllawiau yw'r rhain ar sut i sefydlu systemau adnabod a rheoli ar y lefel genedlaethol ar gyfer manau lle ceir nifer mawr o ddamweiniau, ac ar y safonau gofynnol o ran gwybodaeth i yrwyr ar y Rhwydwaith Traws-Ewropeaidd. Ym marn y swyddogion sy'n rheoli'r rhwydwaith, byddai'r canllawiau newydd, yn ddi-au, yn cael effaith y bydd angen ei hystyried a'i hasesu yn ariannol ac yn dechnegol. Ar hyn o bryd, darperir seilwaith ceblau ffibr optig sy'n helpu i gasglu data, teledu cylch cyfyng ac arwyddion lle gellir newid y neges ar y ddwy ffordd sy'n rhan o'r

Rhwydwaith Traws-Ewropeaidd. Mae gennym hefyd ddwy ganolfan rheoli traffig sy'n anfon gwybodaeth at un ganolfan wybodaeth sydd, yn ei thro, yn rhoi gwybodaeth am safleoedd y we fyd-eang, yn rhedeg y gwasanaeth ffôn WAP, y llinell gwybodaeth i deithwyr a gwasanaethau gwybodaeth eraill cysylltiedig ar gyfer y rhwydwaith cyfan, gan gynnwys rheoli digwyddiadau (ni waeth lle y maent). Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw wasanaethau gwybodaeth penodol yn cael eu darparu ar gyfer mannau lle ceir nifer mawr o ddamweiniau.

28. Mae bwriad hefyd i gyflwyno cynnig ar gyfer Penderfyniad i ddisodli Penderfyniad 1692/96/EC ar ganllawiau'r Gymuned ar gyfer datblygu'r rhwydwaith Traws-Ewropeaidd ym maes trafndiaeth. Yn y cynnig, bwriedir diffinio cynlluniau amlinellol newydd ar gyfer seilwaith trafndiaeth sy'n gymwys i gael ei ystyried yn un traws-ewropeaidd. Bydd y cynlluniau amlinellol yn cynnwys nifer bach o lwybrau (ar y tir ac yn yr awyr) a nodau trafndiaeth sy'n gallu ymdopi â llawer iawn o draffig, a byddant yn nodi'r prosiectau y bwriedir rhoi blaenoriaeth iddynt yn yr Aelod-wladwriaethau presennol ac yn yr Aelod-wladwriaethau a fydd yn ymuno â'r Undeb yn y dyfodol. Y farn yw y gallai rhoi llai o flaenoriaeth i ddatblygu'r Rhwydwaith Traws-Ewropeaidd (E22 o'r dwyrain i'r gorllewin yn y Gogledd a'r E30 o'r dwyrain i'r gorllewin yn y De) gael effaith negyddol. Mae'r ffaith ei fod yn bodoli o gymorth yn wyneb dadleuon ynghylch bod ar yr ymylon yn ddaearyddol, ac o'r herwydd, fe'i defnyddiwyd i gyfiawnhau rhai gwelliannau i'r Flaenraglen Gefnffyrdd. Yn benodol, mae'r gwelliannau arfaethedig yng Nglannau Dyfrdwy ac i'r A40 i'r gorllewin o Sanclêr wedi'u seilio'n rhannol ar wella cysylltiadau i'r gorllewin ac i Iwerddon a thu hwnt. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw un o brosiectau blaenoriaeth y Rhwydwaith Traws-Ewropeaidd yng Nghymru, ac nid oes unrhyw gynlluniau ar y gweill yn hyn o beth ychwaith.

Diwylliant

29. Mae'r Comisiwn yn bwriadu cyflwyno nifer o weithredoedd deddfwriaethol ac anneddfwriaethol yn y sector clyweled ac yn sector y cyfryngau. Ymhlith y rhain mae cynigion i sefydlu rhaglen Ewropeaidd i gefnogi'r sector clyweled. Mae rhai o'r mesurau'n ymwneud â pharhau â'r rhaglen Media Plus, sy'n cael ei gweinyddu yng Nghymru ar hyn o bryd gan Sgrin, Asiantaeth Cyfryngau Cymru. Mae swyddogion yn cadw llygad ar ddatblygiadau yn hyn o beth.

30. Mae'r Comisiwn yn paratoi dogfen sy'n trafod ei gynllun gweithredu ar amrywiaeth ieithyddol ac addysgu ieithoedd. Mae swyddogion wedi cyfrannu at ymateb y DU i gynigion y Comisiwn.

31. Ystadegau. Bydd EUROSTAT yn goruchwyllo deddfwriaeth i ddiwygio'r rhestr o newidynnau a ddefnyddir yn yr Arolwg o'r Llafurlu, gan gydnabod bod angen mesur cysyniadau megis hyblygrwydd ac ansawdd gwaith.

Cyllideb yr UE ar gyfer 2004

32. Cyhoeddodd y Comisiwn ar 30 Ebrill ei fod wedi mabwysiadu ei gynnig ar y gyllideb ddrafft gyntaf ar gyfer 2004. Mae amcangyfrifon yn y gyllideb ar gyfer 15-yr UE a fydd yn dod i rym o ddechrau 2004 ac ar gyfer 25-yr UE a fydd yn dod i rym o 1 Mai 2004 ymlaen, sef y dyddiad y daw'r gwledydd yn Aelodau o'r Undeb.

33. Cyfanswm y gwariant ar gyfer 2004 (y dyraniadau cymorth y gellir eu gwario yn ystod y flwyddyn bresennol o ganlyniad i gytundebau) yw €100.6 biliwn. Mae'r Comisiwn yn disgrifio hyn fel cynnydd "bach", sef 3.3% yn fwy na'r gyllideb ar gyfer 2003. Cyfanswm y dyraniadau sydd wedi'u neilltuo (yr uchafswm ar gyfer ymrwymadau ariannol yr Undeb yn y flwyddyn ariannol ar gyfer 2004) yw €112.2 biliwn ar gyfer 26-yr UE, ac mae €11.8 biliwn ohonynt wedi'u neilltuo ar gyfer yr Aelod-Wladwriaethau newydd. (Mae'r dyraniadau neilltuo yn talu holl gostau'r rhwymedigaethau cyfreithiol y cytunwyd arnynt ar gyfer y flwyddyn ariannol mewn perthynas â'r gweithrediadau i'w cynnal dros gyfnod sy'n fwy nag un flwyddyn ariannol, tra bydd y dyraniadau cymorth yn talu am wariant, nad yw'n fwy na chyfanswm y gyllideb, sy'n deillio o'r ymrwymadau a wnaed yn ystod y flwyddyn gyfredol a/neu yn ystod y blynyddoedd ariannol blaenorol).

34. Ehangu yw'r flaenoriaeth bwysicaf ar gyfer 2004, a bydd cynnydd sylweddol yn y Cronfeydd Strwythurol, sef gwariant o €30.68 biliwn ar gyfer yr UE ehangach.

35. Cyfanswm y dyraniadau ar gyfer amaethyddiaeth ar gyfer 15-yr UE yw €45.8 biliwn, a bydd £4.8 biliwn ohono yn cael ei neilltuo ar gyfer datblygu gwledig. Yr amcangyfrif ar gyfer yr Aelod-wladwriaethau newydd yw €2 biliwn, ac mae €1.7 biliwn ohono wedi'i neilltuo ar gyfer datblygu gwledig.

Cydymffurfio

36. O dan Reol Sefydlog 15, yn benodol 15.2 a 15.3, un o swyddogaethau'r Pwyllgor yw "monitro effaith gyffredinol a chanlyniadau'r polisïau a ddilyniir gan sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd ar gyfer Cymru" a "thynnu sylw pwyllgorau pwnc perthnasol at faterion penodol".

Goblygiadau Ariannol

37. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol i'r Cynulliad yn codi o'r materion a drafodwyd yn yr adroddiad hwn. Datganiad am fentrau newydd arfaethedig ac am ddatblygu rhai sy'n bodoli eisoes yw'r Rhaglen Ddeddfwriaethol a'r Rhaglen Waith, ond nid ydynt ynddynt eu hunain yn gynigion ar gyfer deddfwriaeth na gwariant newydd. Felly, nid yw'r ddogfen yn effeithio'n uniongyrchol ar wariant cyhoeddus y DU, nac yn wir ar gyllideb y GE. Mae'n glir y bydd angen i Weinidogion a'u swyddogion ystyried goblygiadau gweithredu mentrau newydd a deddfwriaeth newydd pan fydd hynny'n briodol.

Cyswllt yn yr Is-adran: Y Gangen Materion Ewropeaidd ac Allanol 2, Pennaeth y Gangen: Jackie Brown (est. 3157).

Rhodri Morgan AC
Prif Weinidog Cymru

